**19 Ionawr 2010**

Cyngor Sir
**CEREDIGION**
County Council

**Ymholiad Pwyllgor Archwilio Llywodraeth Cynulliad Cymru i oblygiadau adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru ar Orlifo Llanwol a Pheryglon Erydu Arfordirol yng Nghymru, Tystiolaeth gan Gyngor Sir Ceredigion: 27 Ionawr 2010**

1. Cyngor Sir Ceredigion yw'r Awdurdod Lleol Arfordirol gyda chyfrifoldebau am reoli perygl gorlifo ar afonydd nad ydynt yn brif afonydd a pherygl o orlifo ac erydu mewn ardaloedd arfordirol. Mae effaith y materion hyn yn gynyddol gan fod pob perygl o orlifo yn effeithio ar gyfrifoldebau Ymateb mewn Argyfwng a Chynllunio ar gyfer Argyfyngau Sifil y Cyngor.

2. Mae Arfordir Ceredigion yn ffurfio rhan ganolog Bae Ceredigion a leolir ar Arfordir Gorllewinol Cymru. Mae ffryntiad Cynllun Rheoli Traethlin Ceredigion yn ymestyn dros 100km o aber yr afon Teifi yn y de, y ffin weinyddol Ceredigion a Sir Benfro i aber yr afon Dyfi yn y gogledd wrth y ffin weinyddol rhwng Ceredigion a Gwynedd.

3. Mae Ceredigion yn gweithio mewn partneriaeth gyda'r Awdurdodau lleol ger llaw ac eraill o fewn Grŵp Arfordirol Bae Ceredigion ac yn wir mae'r grŵp ar hyn o bryd yn gweithio ar y cyd gyda grwpiau eraill yng Nghymru i sicrhau datblygiad yr ail gam gyda Chynllun Rheoli Traethlin .

4. Mae'n hanfodol gyda lefel y môr yn codi gyda mwy o stormydd y bydd hi'n fwy anodd cyllido amddiffynfeydd yn y dyfodol a bod yn rhaid ystyried yr ymateb o ran lliniaru a chilio. Ymddengys yn anhepgor fod yr ymateb a'r cilio yn dod yn ganran fwy o'r costau cyffredinol a bod yr arian sydd yn cael ei wario ar amddiffyn yn llai effeithiol os bydd yn parhau ar yr un lefel. Mae cyllid ymateb ar hyn o bryd yn seiliedig ar refeniw ac nid yw'n cael ei gyllido o gyllid Arfordirol.

5. Bu Ceredigion yn ffodus i gael llawer o gyllid ar gyfer cynlluniau arfordirol o gronfa cydgyfeirio WEFO ac o grant amddiffyn yr arfordir Llywodraeth Cynulliad Cymru ac mae'n ddiolchgar am y gefnogaeth a'r cymorth a roddwyd gan y Gangen Rheoli Risg Gorlifo a'r Arfordir. Mae hyn wrth gwrs yn Gyllid Cyfalaf.

6. Mae Ceredigion hefyd yn cymryd rhan mewn gweithdai sydd yn deillio o brofiad o'r cynlluniau sydd ar hyn o bryd yn cael eu cyllido gan arian Cydgyfeirio ac sydd yn datblygu fel rhan o'r 'Dulliau Newydd' sydd yn arwain tuag at ddiffinio manylion y rhaglen a chael arfer dda.

7. Mae'r gweithdai hyn yn datblygu yn dda er ar hyn o bryd mae llai o bwyslais ar erydu a gorlifo'r glannau nag sydd yn ar lefelau dŵr afonydd a llanw yn codi. Ymddengys bod y rhan fwyaf o'r cynlluniau cynnar o'r math hwnnw yn hytrach na'r rhai hynny sydd yn bygwth colli eiddo.

8. Yn nhermau cyfrifoldebau Ceredigion ar gyfer cynlluniau arfordirol a'r angen i wneud y cyhoedd yn ymwybodol o'r ffaith gyffredinol y bydd llai o arian yn cael ei wario ar amddiffyn, ymddengys nad yw'r neges hon yn effeithiol ac nad yw'n gydnaws â'r rhaglenni isadeiledd gweithredol. Mae hyn yn creu anawsterau wrth siarad â chymunedau a hefyd wrth ddelio â sylwadau ar gynlluniau a cheisiadau cynllunio.

9. Ymddengys bod y rhaglen 'Dulliau Newydd' yn amserlen sydd yn nodi nodau ac amcanion am gyfnod hwy. Mae'r nodau ac amcanion yn ymwneud â threfn yn hytrach nag yn ateb i unrhyw faterion. Yn nhermau erydu arfordirol, gorlifo glannau a gorlifo mewn ardaloedd arfordirol isel, gellir colli eiddo neu gallant gael eu difrodi y tu hwnt i'w hatgyweirio. O dan yr amgylchiadau hyn, nid yw'r Rhaglen yn delio â chyfrifoldeb; ac mae mesurau lliniaru yn llai tebygol o fod yn effeithiol. Yn ogystal, ni fydd ceisio cael perchnogion eiddo i wneud eu hasedau yn fwy tebygol i fedru goresgyn gorlifo, yn gweithio.

10. Mae felly yn bwysig i berchnogion eiddo fedru lliniaru eu colledion drwy newid eu gobeithion a lleihau'r buddsoddiad mewn eiddo os yw ei oes yn gyfyngedig. Yn nhermau erydu arfordirol mae 50 i 100 mlynedd yn gyfnod cynllunio rhesymol i wneud hyn. Mae oedi cyn rhoi rhybudd o hyn yn lleihau'r amser sydd ar gael i berchnogion gynllunio ac adweithio.

11. Efallai ei bod hi'n amser ystyried Datganiad Strategaeth Genedlaethol, bod y sefyllfa wedi newid a bod angen i'r perchnogion eiddo hynny a chymunedau lleol fod yn ymwybodol bod y lefelau amddiffyn blaenorol yn cael eu cynnal. Gall galw'r gwasanaeth cyffredinol yn amddiffyn ac ymateb fod yn gamarweiniol yma yn enwedig gan nad yw costau ymateb a gyllidir gan refeniw wedi ei ddosrannu i unrhyw Awdurdod na chyllideb.

Delio â chylch gorchwyl y Pwyllgor

i) Nid yw dinasyddion eto yn rhan o'r cynllun Dulliau Newydd (parthed erydu a gorlifo glannau) ac nid yw'n eglur sut y gwneir hyn na chan bwy.
ii) Mae'r gallu i gyflwyno'r rhaglen Dulliau Newydd y tu hwnt i Gangen Rheoli Perygl Gorlifo a'r Arfordir ac nid yw'n eglur eto os yw'n well gwneud hyn yn genedlaethol neu yn lleol.
iii) Nid yw'r amcanion wedi eu diffinio eto.
iv) Ni ellir monitro nes y medrir diffinio'r amcanion.

Efallai bod achos dros ddiffinio nodau ac amcanion yn fwy cyflym yng nghyswllt gorlifo ac erydu arfordirol gan y gall canlyniadau methu â gwneud hyn fod yn echrydus ac mae'r amserlen ar gyfer unigolion i gynllunio ac ymateb yn fwy hanfodol.

Garfield Williams
Cyfarwyddwr Cynorthwyol, Peirianneg

Adran y Priffyrdd, Eiddo a Gwaith
Cyngor Sir Ceredigion